



CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

AMODAU TRWYDDEDU CERBYDAU HURIO PREIFAT

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (AMRYWIOL DDARPARIAETHAU) 1976

Enw a Chyfeiriad Deiliad y Drwydded Rhif CHP

CYFFREDINOL

1. Ni chaniateir i'r cerbyd fod yn gerbyd hurio preifat a drwyddedir gan unrhyw Gyngor arall

YSWIRIANT

2. Rhaid i Gerbydau Hurio Preifat trwyddedig fod wedi'u hyswirio ar gyfer eu defnyddio'n Gerbyd Hurio Preifat ac mae'n rhaid cyflwyno'r dogfennau yswiriant newydd ar y dyddiad y daw'r nodiadau neu'r tystysgrifau yswiriant i ben neu cyn hynny.

ARWYDDION A HYSBYSIADAU

3. Ni chaniateir arddangos unrhyw arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, arwyddluniau neu ddyfeisiau o gwbl ar y cerbyd, yn y cerbyd nac ohono ac eithrio ar gais ysgrifenedig y Cyngor neu ei Swyddogion Awdurdodedig neu gyda'u caniatâd: - Ni fydd yr amod hwn yn berthnasol yng nghyswllt y canlynol:
 - a) unrhyw ddynodydd ar y mesurydd a osodwyd yn y cerbyd.
 - b) unrhyw arwyddion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, arwyddluniau neu ddyfeisiau a osodwyd y tu mewn i'r cerbyd neu'r tu allan iddo gan wneuthurwr y cerbyd hwnnw pan gafodd ei gynhyrchu.
 - c) dim mwy na dau hysbysiad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol yn unig - enw(au)'r unigolyn neu enw(au) masnachu a/neu rif(au) ffôn perchennog/perchenogion neu weithredydd/weithredwyr y cerbyd hwnnw yn ddarostyngedig i'r canlynol: -
 - i) bod ffurf, lliw, diwyg, golwg, cynnwys a lleoliad yr holl hysbysiadau hyn wedi cael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor neu ei Swyddogion Awdurdodedig.

- ii) rhaid i berchennog neu berchenogion a gweithredydd neu weithredwyr y cerbyd hwnnw sicrhau na fydd yr hysbysiadau uchod yn amharu ar unrhyw adeg ar allu'r gyrrwr i weld o'r cerbyd nac ar unrhyw hysbysiad arall y mae'n rhaid ei arddangos yn y cerbyd yn statudol neu yn unol â gofynion y Cyngor.

PLÂT TRWYDDED, PLÂT COFRESTRU A STICERI

- 4. Rhaid i'r perchennog sicrhau bod y canlynol wedi'u marcio'n glir a'u cadw yn y cerbyd mewn man amlwg fel bod pawb sy'n teithio yn y cerbyd yn gallu eu gweld ar bob adeg: -
 - a) Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Trwyddedu y gellir cyfeirio cwynion ato.
 - b) Rhif y drwydded cerbyd.
 - c) Nifer y teithwyr a bennwyd yn y drwydded cerbyd.
 - d) Copi cyfredol o'r prisiau a'r taliadau, a gymeradwywyd gan y Cyngor.
- 5.
 - a) Rhaid gosod y plât allanol sy'n dynodi bod y cerbyd yn Gerbyd Hurio Preifat mewn man amlwg ar gefn y cerbyd mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd i holl Swyddogion Awdurdodedig y Cyngor neu Heddwes ei waredu.
 - b) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod sticer a ddyroddwyd gan y Cyngor yn cael ei osod yn barhaol ar ddrysau blaen y cerbyd. Bydd y sticeri drws yn cael eu gosod yn uniongyrchol ar y cerbyd gan ddefnyddio'r defnydd hunanlynol ar gefn y sticeri.
 - c) Ni chaniateir i neb weithredu Cerbyd Hurio Preifat trwyddedig heb arddangos yn glir y plât adnabod a'r sticeri a osodwyd yng ngorsaf brofi'r Cyngor neu sy'n bodloni gofynion yr orsaf. Rhaid tynnu'r holl sticeri adnabod a'r plât cerbyd oddi ar y cerbyd yn ddiymdroi a'u dychwelyd i'r Cyngor cyn pen 7 niwrnod wedi i'r drwydded cerbyd ddod i ben neu wedi iddi gael ei hatal neu'i diddymu.

DARPARU GWYBODAETH

- 6. Bydd perchennog yn rhoi manylion ysgrifenedig ynghylch y canlynol i'r Cyngor, cyn pen wyth niwrnod ar hugain: -
 - a) unrhyw newidiadau o ran cyfeiriad a/neu rif ffôn unrhyw berchennog arall neu unigolyn sy'n ymwneud â chadw'r cerbyd trwyddedig, ei ddefnyddio neu ei hurio i eraill.
 - b) unrhyw gollfarnau neu rybuddion, na hysbyswyd y Cyngor amdanynt ac sydd wedi'u cofnodi naill ai (i) yn ei erbyn ef/hi (ii) yn erbyn Cwmni y mae ef/hi yn Gyfarwyddwr neu'n Ysgrifennydd arno, (iii) yn erbyn un o yrwyr y cerbyd

MANYLEB Y CERBYD A'R GOFYNION CYNNAL A CHADW

7. O 1^{af} Ebrill 2009 ymlaen

Rhaid i gerbydau a gyflwynir am brawf am y tro cyntaf at ddibenion trwyddedu fod o dan 5 **mlwydd oed**.

Rhaid i gerbydau y gellir cael mynediad iddynt mewn cadair olwyn a gyflwynir am brawf am y tro cyntaf at ddibenion trwyddedu fod o dan 8 mlwydd oed.

Rhaid i gerbydau fod o fath addas sy'n cydymffurfio â manyleb gyfredol y Cyngor ar gyfer cerbydau. Rhaid cadw'r cerbydau mewn cyflwr da, a dylent gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Awdurdodedig, gan Heddwes, a chan archwilydd cerbydau.

8. Ni chaniateir Cerbydau Hurio Preifat y mae eu dyluniad a'u diwyg yn arwain pobl i gredu eu bod yn Gerbydau Hacnai.
9. Rhaid i'r llyw fod ar ochr dde'r cerbyd a bydd gan y cerbyd o leiaf bedwar drws.
10. Os gosodwyd mesurydd mewn Cerbyd Hurio Preifat, mae'n rhaid iddo fod yn un y cymeradwywyd ei ddyluniad, ac sydd wedi'i selio'n briodol, ei brofi a'i ardystio
11. Rhaid i'r holl gerbydau fod wedi'u llunio a'u cynnal a'u cadw mewn modd sy'n eu gwneud yn ddiogel ac yn gyffyrddus. Rhaid gallu agor y drysau'n ddigon llydan i ganiatáu i deithwyr esgyn i'r cerbyd a disgyn ohono yn hwylus, heb achosi anghyfleustra. Ni chaniateir seddi sy'n wynebu'r ochrau.
12. Rhaid gosod gwregysau diogelwch cymeradwy ar gyfer pob sedd.
13. Rhaid i bob cerbyd gydymffurfio â'r mesuriadau mewnol lleiaf canlynol:
 - a) Uchder - ni chaiff y bwlch rhwng brig clustogau'r seddi (heb eu cywasgu) a rhan isaf y to fod yn llai na 32 modfedd.
 - b) Lle i'r pengliniau - ni chaiff y bwlch rhwng cefn y seddi blaen ac ymyl clustog y sedd gefn fod yn llai na 30 modfedd. Pan fo modd symud y seddi, rhaid mesur y bwlch pan fydd y sedd yn y man canol.
 - c) Seddi (lled) - ni chaiff lled y sedd gefn o'i chefn i'w hymyl blaen fod yn llai na 18 modfedd.
 - d) Sedd Gefn (hyd) – rhaid i hyd y sedd gefn, wedi'i fesur mewn llinell syth o'r naill ben i'r llall neu ar hyd blaen y sedd fod yn ddigon i ganiatáu o leiaf 16 modfedd yr un o le eistedd i'r teithwyr.
 - e) Maint yr injan - ni chaiff maint injan y cerbyd fod yn llai na 1200cc.

14. Rhaid i bob cerbyd gynnwys y canlynol: -
- a) Goleuadau mewnol sy'n gweithio'n awtomatig pan fydd unrhyw un o'r drysau cefn ar agor neu y gellir eu rheoli â swits unigol ger sedd y gyrrwr.
 - b) Golau mewnol yng nghist y cerbyd.
 - c) Arwyddion dim ysmegu y tu mewn i'r cerbyd.
15. Rhaid darparu a chadw blwch cymorth cyntaf addas, sy'n cynnwys rhwymynnau a chyfarpar cymorth cyntaf priodol, yn y cerbyd bob tro y caiff ei ddefnyddio neu pryd bynnag y bydd ar gael i'w hurio, a rhaid cadw'r blwch mewn man gweladwy yn y cerbyd fel y gellir ei ddefnyddio'n ddiymdroi mewn argyfwng. Cynghorir gyrrwyr nad yw'n ofynnol iddynt roi cymorth cyntaf.
16. Rhaid i bob cerbyd gario mewn man cyfleus a hygyrch a gymeradwywyd gan y swyddog awdurdodedig, ddiffodiadur tân addas sydd wedi'i gynhyrchu a'i brofi yn unol â'r Safon Brydeinig berthnasol ac sy'n arddangos y rhif Safon Brydeinig.
17. Ni chaniateir i neb addasu neu newid yn sylweddol fanyleb, dyluniad, cyflwr neu olwg y cerbyd ar unrhyw adeg pan fydd y drwydded mewn grym oni chafwyd caniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor.
18. Ni chaniateir gosod offer radio CB na'i ddefnyddio mewn cerbyd trwyddedig.

CERBYDAU A ADDASWYD

19. Os yw nifer y seddi teithwyr mewn unrhyw gerbyd a addaswyd wedi'i ostwng i wyth sedd neu lai, mae'n rhaid i bwyntiau cysylltu'r seddi a dynnwyd gael eu cau yn barhaol neu eu gwaredu mewn modd arall sy'n bodloni Swyddog Trwyddedu'r Cyngor.
20. Ni chaniateir gosod neu ddarparu seddi neu ddarpariaeth arall barhaol neu dros dro yn y cerbyd (ac eithrio seddi plant neu gadeiriau olwyn mewn cerbydau a addaswyd) tra bydd yn Gerbyd Hurio Preifat trwyddedig.
21. Rhaid darparu'r dogfennau a'r tystysgrifau addasu perthnasol ar gyfer pob cerbyd a addaswyd

Y PRAWF CERBYD

22. Bydd yn ofynnol bod cerbydau'n cael prawf blynyddol gan Archwilwyr Cerbydau'r Cyngor.

TROSLWYDDO'R DRWYDDED CERBYD

23. Rhaid i berchennog Cerbyd Hurio Preifat trwyddedig roi gwybod i'r Cyngor cyn pen 14 diwrnod wedi i'r cerbyd gael ei drosglwyddo. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig a rhaid i'r perchennog roi enw a chyfeiriad yr unigolyn y trosglwyddwyd ei fudd iddo.
24. Rhaid i berchennog neu yrrwr Cerbyd Hurio Preifat sydd wedi cydsynio neu sydd wedi cael ei hurio i fod yn bresennol gyda'r cerbyd ar amser ac mewn lle a benodwyd gyrraedd y man penodedig yn brydlon yn ei gerbyd oni bai iddo gael ei ddal yn ôl neu ei atal gan achos digonol.
25. Ni chaniateir i berchennog neu yrrwr Cerbyd Hurio Preifat gludo na chaniatáu cludo mwy o deithwyr mewn cerbyd hurio preifat na'r nifer a bennwyd yn y drwydded Cerbyd Hurio Preifat.
26. Rhaid cadw'r cerbyd a'i holl ffitiadau ac offer mewn cyflwr effeithlon, diogel a glân bob amser pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w hurio.

TORRI AMODAU'R DRWYDDED

27. Os canfyddir cyfanswm o 3 thor-amod nad ydynt yn ymwneud â mecanwaith y cerbyd yn ystod un neu ragor o hap-wiriadau cerbyd mewn cyfnod o 18 mis, rhaid i'r Awdurdod, yn unol ag Adran 60 (1) (c) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976, ymdrin â'r mater fel rheswm digonol dros atal y drwydded cerbyd. Bydd y drwydded yn cael ei hatal am o leiaf 14 diwrnod. Os bydd cerbyd yn methu â chydymffurfio â'r amodau ar ôl 14 diwrnod, bydd ei drwydded yn dal i gael ei hatal hyd nes y bydd wedi cydymffurfio â'r amodau.

Atgoffir deiliaid trwydded bod Deddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 yn cynnwys y darpariaethau canlynol sy'n berthnasol i gerbydau hurio preifat: -

- i) Rhaid cyflwyno pob cerbyd i'w archwilio ar adeg rhesymol y bydd y Cyngor yn barnu'i fod yn angenrheidiol a rhaid cydymffurfio â'r holl ofynion statudol presennol o ran cerbydau ffordd a'r amodau a bennwyd gan y Cyngor. Nid yw'r amod hwn yn dirymu'r pwerau a roddwyd dan adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976.
- ii) Rhaid cyflwyno'r ddogfen gofrestru berthnasol a'r dystysgrif yswiriant ddilys sy'n ofynnol gan ran VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ynghyd â thystysgrif MOT gyfredol bob tro y bydd cerbyd yn cael ei archwilio'n swyddogol.
- iii) Os bydd deiliad trwydded yn cael gwybod trwy lythyr am ddiffyg sydd, ym marn swyddog awdurdodedig y Cyngor, yn gwneud y cerbyd yn anaddas i'w ddefnyddio i wasanaethu'r cyhoedd, rhaid iddo/iddi roi'r gorau i ddefnyddio'r cerbyd yn llwyr ac yn gyfangwbl neu hyd nes y bydd y diffyg wedi'i gywiro mewn modd sy'n bodloni'r swyddog awdurdodedig.

- iv) Rhaid i ddeiliad trwydded yn rhoi gwybod i swyddog awdurdodedig y Cyngor am unrhyw ddifrod a achoswyd i'w gerbyd cyn pen 72 awr wedi'r digwyddiad hwnnw.
- v) Rhaid i berchennog Cerbyd Hurio Preifat ganiatáu i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor weld yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â cherbydau trwyddedig, gan gynnwys yswiriant y cerbyd, ar bob adeg rhesymol.
- vi) Os bydd y perchennog yn caniatáu i rywun arall yrru'r cerbyd Hurio Preifat neu'n cyflogi rhywun i wneud hynny, rhaid iddo sicrhau cyn bod yr unigolyn yn dechrau gyrru'r cerbyd fod y gyrrwr yn rhoi'i drwydded Cerbyd Hurio Preifat neu'i drwydded yrru ddeuol i'r perchennog i'w chadw hyd nes y tynnir y caniatâd neu'r gyflogaeth i yrru'r cerbyd neu unrhyw gerbyd arall sy'n eiddo i'r perchennog yn ôl.
- vii) Bydd unrhyw un sy'n cyflawni trosedd yn erbyn un o ddarpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 na ddarperir cosb yn benodol ar ei chyfer, yn agored i dderbyn collfarn ddiannod sef dirwy lefel 3 neu lai.